# Cofnodion wedi'u cadarnhau

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | **Cyfarfod y Bwrdd (Busnes)**<br><br>**Swyddfa Cyfoeth Naturiol Cymru, Maes y Ffynnon, Bangor** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 12 Mai 2016 |
| **Aelodau'r Bwrdd:** | Diane McCrea (Cadeirydd)<br>Madeleine Havard (Is-gadeirydd)<br>Emyr Roberts (Prif Weithredwr)<br>Elizabeth Haywood<br>Ruth Hall<br>Andy Middleton<br>Paul Williams<br>Karen Balmer<br>Chris Blake<br>Howard Davies<br>Nigel Reader<br>Zoe Henderson |
| **Aelodau'r Tîm Gweithredol a oedd yn bresennol:** | Clive Thomas, Cyfarwyddwr Llywodraethu<br>Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r De<br>Tim Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r Gogledd a'r Canolbarth<br>Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio<br>Ashleigh Dunn, Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl<br>Catherine Smith, Cyfarwyddwr Cysylltiadau Allanol a Chyfathrebu<br>Rob Bell, Pennaeth Cyllid Busnes (paragraffau 1 i 17 yn unig) |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Geri Mills<br>Leah Edge |

## Busnes Arferol y Bwrdd

1. Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyhoedd, aelodau'r Bwrdd ac aelodau'r Tîm Gweithredol i'r cyfarfod.

## Ymddiheuriadau

2. Cafwyd ymddiheuriadau gan Kevin Ingram, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol. Bu Rob Bell, Pennaeth Cyllid Busnes, yn dirprwyo drosto am ran o’r cyfarfod.

## Datgan buddiannau

3. Nododd Nigel Reader newid i’w fuddiannau gan fod Cadeirydd Pwyllgor Archwilio’r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur wedi gofyn iddo fod yn aelod annibynnol o’r Pwyllgor hwnnw ar ôl i’w gyfnod fel enwebai Cyfoeth Naturiol Cymru ar y Pwyllgor ddod i ben.

## Cofnodion, materion yn codi a’r wybodaeth ddiweddaraf gan y Pwyllgorau

4. Cafodd cofnodion cyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2016 eu cadarnhau ac ni chafodd unrhyw newidiadau eu cynnig.

5. Cafodd y lòg camau gweithredu ar gyfer cyfarfodydd blaenorol y Bwrdd ei adolygu a’i nodi.

6. Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thrawsnewid nad oedd y Pwyllgor wedi cwrdd ers y diweddariad diwethaf a ddarparwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth. Cafodd cofnodion cyfarfod mis Mawrth eu cyflwyno a’u cadarnhau gan y Bwrdd, a nodwyd bod angen i’r Ysgrifenyddiaeth adolygu’r fformat. Nodwyd y byddai’r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 10 Mehefin 2016.

7. Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg nad oedd y Pwyllgor wedi cwrdd ers y diweddariad diwethaf a ddarparwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth. Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor fod yr Archwilydd Cyffredinol, yn dilyn y cyfarfod ym mis Mawrth a fynychwyd gan Mike Palmer o Swyddfa Archwilio Cymru, wedi lansio’r ymgynghoriad ffurfiol ynghylch opsiynau ar gyfer cyflawni ei gyfrifoldebau dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymateb yn ffurfiol erbyn y dyddiad cau, sef 23 Mai, a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu y byddai’r ymateb drafft yn cael ei anfon at aelodau’r Pwyllgor yn ystod yr ychydig ddiwrnodau nesaf. Cafodd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ym mis Mawrth 2016 eu nodi a’u cadarnhau yn ffurfiol gan y Bwrdd.

8. Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fod y Pwyllgor yn goruchwylio'r gwaith o lunio'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon. Nododd Cadeirydd y Pwyllgor ei fod yn fodlon iawn â'r modd yr oedd y cyfrifon yn cael eu llunio a'i fod wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pennaeth Cyllid Busnes.

9. Cafodd Dorota Lee, a oedd yn arsylwi cyfarfod y Bwrdd, ei chyflwyno i'r aelodau. Mae hi newydd gael ei phenodi'n Rheolwr Archwilio Mewnol a Sicrhau Risg ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru.

10. Adroddodd Cadeirydd Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru y byddai cyfarfod olaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal yn Llanelwy ar 20 Mai 2016. Nodwyd y byddai Deddf yr Amgylchedd yn dod i rym drannoeth y cyfarfod, ar ôl iddi gael Cydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth. Nododd y Bwrdd fod y Ddeddf yn golygu symud y gwaith rheoli a'r angen am bwyllgor i Lywodraeth Cymru, gyda chynrychiolaeth o Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r Pwyllgor wedi llunio adroddiad i ddathlu'r gwaith a wnaed dros y 10 mlynedd diwethaf, gan dynnu sylw at y blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol. Bydd yr adroddiad terfynol yn barod tua diwedd mis Mai a chaiff ei anfon at aelodau'r Bwrdd bryd hynny.

***CAM GWEITHREDU: Cadeirydd Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru i anfon yr adroddiad terfynol at aelodau'r Bwrdd.***

11. Nodwyd bod rhywfaint o bryder ynghylch y bwlch rhwng gorchymyn cychwyn Deddf yr Amgylchedd a sefydlu'r Pwyllgor newydd gan Lywodraeth Cymru, a bod cyfnod yr aelodau a etholwyd i Bwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru yn dod i ben ddiwedd mis Mehefin 2016.

12. Mae cyfarfod o'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig wedi'i drefnu ar gyfer 7 Mehefin ac estynnodd Cadeirydd y Pwyllgor wahoddiad i aelodau mwyaf newydd y Bwrdd ddod i arsylwi'r cyfarfod.

## Adroddiad Cyllid Interim Diwedd y Flwyddyn 2015/16 (NRW B 25.16)

13. Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid Busnes fersiwn ddrafft i'r Bwrdd o'r Adroddiad Cyllid Diwedd y Flwyddyn. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn adrodd yn ôl yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ym mis Mehefin a bydd yr adroddiadau terfynol yn dod i'r Bwrdd trwy'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ym mis Gorffennaf. Ar ôl iddynt gael eu hadolygu, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cymeradwyo'r cyfrifon a bydd modd wedyn eu cyhoeddi. Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y byddai sesiwn yn cael ei chynnal gyda'r Pennaeth Cyllid Busnes ar 27 Mai i graffu ar y cyfrifon ac estynnwyd gwahoddiad i aelodau eraill y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ddod i'r sesiwn honno.

14. Nodwyd bod y swm terfynol sydd i'w ddwyn ymlaen o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf yn fwy na'r hyn a ragwelwyd, a nodwyd bod hynny o ganlyniad i incwm uwch, ffocws y Cyfarwyddiaethau ar reolaeth ariannol er mwyn helpu i ymdrin â'r diffyg yn y gyllideb ar gyfer 2016/17, a dyraniad 'Cymorth Grant prosiectau' terfynol unigol gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn werth £12.3 miliwn.

15. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid Busnes fod 98% o anfonebau wedi'u talu cyn pen 30 diwrnod yn ystod mis Mawrth ac y byddai'r taliad ychwanegol i'r gronfa bensiwn yn ymddangos yng nghyfrifon 2015/16.

16. Nodwyd bod gwall yn Nhabl 2 y papur, gan mai 2016/17 yn hytrach na 2015/16 ddylai fod ym mhennawd y golofn.

17. Ar ran y Bwrdd diolchodd y Cadeirydd i'r Tîm Cyllid am ei waith diwyd yng nghyswllt rheolaeth ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Adroddiad ynghylch Perfformiad 2015/16 – Adroddiad Diwedd Blwyddyn (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016) (NRW B 26.16)

18. Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad i'r Bwrdd a gofynnodd i Gyfarwyddwyr Gweithredol unigol roi sylwadau ychwanegol ar nifer o'r mesurau perfformiad. Nodwyd bod perfformiad yn cael ei asesu ar sail y cynllun corfforaethol a'r llythyr cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru.

19. Roedd y crynodeb cyffredinol yn dangos bod 28 o'r 42 o fesurau wedi'u cyflawni yn llawn (gwyrdd) a bod 9 mesur arall o fewn 10% i'w targed a'u bod felly wedi'u lliwio'n felyn ar ddiwedd y flwyddyn. Nododd y Bwrdd fod tri mesur wedi'u lliwio'n goch ac nad oedd gwybodaeth wedi'i chyflwyno ar gyfer un mesur oherwydd bod yn rhaid aros am ganlyniadau Arolwg Pobl 2016.

### *Gwybodaeth Dda*

20. Dan y pennawd 'Gwybodaeth Dda', adroddwyd bod 4 o'r mesurau perfformiad yn wyrdd a bod 2 a oedd yn gysylltiedig â'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol a'r Cynllun Galluogi Tystiolaeth yn felyn. Nododd yr adroddiad y cynnydd a wnaed yn y meysydd canlynol:
    – cyhoeddi 96 o adroddiadau data ar borth Lle Llywodraeth Cymru, dan ddata agored
    – 11 o brosiectau gyda sefydliadau partner, gan gynnwys gwybodaeth am dreialon ardal sydd i'w chyhoeddi'n fuan, sy'n dangos ein bod yn gweithio mewn partneriaeth
    – y gwaith sy'n dal i fynd rhagddo gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu Cynllun Morol.

***CAM GWEITHREDU: Y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio i anfon nodyn briffio at aelodau'r Bwrdd, sy'n rhoi manylion yr 11 o brosiectau sy'n cael eu cyflawni mewn partneriaeth.***

### *Yn Dda i'r Amgylchedd*

21. Dan y thema 'Yn Dda i'r Amgylchedd', nodwyd bod y mesur ar gyfer y Fframwaith Dŵr yn goch o hyd oherwydd ei fod yn is na'r mesur o 50% ar gyfer cyrff dŵr y cofnodwyd bod eu statws ecolegol yn dda. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i weithio gydag ystod o bartneriaid er mwyn cyflawni'r gwelliannau sy'n ofynnol, ac ailnodwyd yr angen i weithio mewn partneriaeth gan na fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu cyflawni'r newidiadau gofynnol ar ei ben ei hun.

22. Cytunwyd bod y mesur ar gyfer dŵr ymdrochi'n enghraifft o gynnydd ardderchog, a nodwyd bod pob un o'r 102 o ddyfroedd ymdrochi wedi bodloni'r rheoliadau llymach ar gyfer 2016.

***CAM GWEITHREDU: Y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio i ddarparu nodyn briffio i'r Bwrdd ynghylch y gwelliannau a wnaed yng nghyswllt ansawdd dŵr ymdrochi***.

23. Wrth ystyried y ffaith bod y mesur ar gyfer cyflwr safleoedd yn goch, nododd yr Is-gadeirydd fod y rhain yn fesurau heriol ond eu bod yn rhai pwysig i anelu atynt. Er bod rhai mesurau'n goch roedd yn bwysig cynnal cynnydd yn y meysydd dan sylw, a nodwyd nad Cyfoeth Naturiol Cymru yn unig sy'n cyfrannu at hynny a bod angen i waith gael ei wneud gan bartneriaid Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn helpu i gyflawni'r mesurau.

24. Trafodwyd y targed gwyrdd ar gyfer bioamrywiaeth. Cytunwyd bod y mesur hwn wedi'i gyflawni ond mynegodd aelodau'r Bwrdd eu pryder ynghylch cyd-destun ehangach y dirywiad parhaus mewn bioamrywiaeth.

### *Yn Dda i Bobl*

25. Dan y thema 'Yn Dda i Bobl', adroddwyd bod 6 o'r mesurau yn wyrdd a 3 yn felyn. Roedd rhai o'r manylion yr adroddwyd yn eu cylch yn cynnwys y canlynol:
    - Roedd tywydd garw wedi effeithio ar y gwaith o gynnal a chadw asedau perygl llifogydd, ac rydym yn gweithio'n awr ar feysydd â blaenoriaeth er mwyn dal i fyny â'r gwaith. Roedd dros £20 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn cynlluniau perygl llifogydd newydd dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda chynlluniau nodedig yn Nolgellau ac yn Nrenewydd yn Notais, Porth-cawl.

- Nid yw pethau wedi symud ymlaen gystal â'r disgwyl gyda chynllun gwirfoddoli Cyfle oherwydd y gwaith cynyddol ar yr Adolygiadau o Feysydd Busnes. Er bod Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes yn gweithio'n helaeth gyda gwirfoddolwyr, nodwyd y gellid gwneud mwy o waith hyrwyddo a datblygu er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n gwneud gwaith gwirfoddol i Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Nodwyd y gwaith ardderchog a wnaed yng nghyswllt y gwasanaeth ar-lein sy'n ymwneud â Lefelau Afonydd, gan gynnwys ychwanegu diweddariadau bob 20 munud ar y wefan. Roedd hwn yn ddarn pwysig o waith gan y tîm ac roedd wedi llwyddo i godi ymwybyddiaeth yn y cymunedau hynny a allai fod yn wynebu perygl llifogydd.
- Gwobrau Aur gan Croeso Cymru i safleoedd ymwelwyr Coed y Brenin a Nant yr Arian.

### *Yn Dda i Fusnes*

26. Dan y thema 'Yn Dda i Fusnes', nodwyd bod 7 o'r mesurau perfformiad yn wyrdd a 2 yn felyn.

27. Roedd y gwelliant yn ein hymatebion i ymgyngoriadau cynllunio, a oedd wedi dechrau yn ystod ail hanner 2014/15, wedi parhau drwy gydol 2015/16 gydag ymatebion yn cael eu cyflwyno i 95% o ymgyngoriadau cyn y dyddiad cau. Yn ogystal, roedd incwm o werthu pren wedi rhagori ar y targedau, er gwaethaf amodau amrywiol y farchnad.

### *Sefydliad Da*

28. Nodwyd nad oedd y mesur iechyd a diogelwch i leihau digwyddiadau sy'n arwain at golli amser staff wedi'i gyflawni, oherwydd cafwyd 10 o ddigwyddiadau a arweiniodd at golli amser staff yn ystod y flwyddyn. Adroddir ynghylch y mesur ar gyfer y mynegai ymgysylltu â staff yn yr adroddiad blynyddol, oherwydd amseriad Arolwg Pobl 2016.

29. Gwnaed cynnydd da drwy gydol y flwyddyn o safbwynt lleihau dibyniaeth ar y cyrff rhagflaenol, ac felly o ran gwireddu'r manteision a nodwyd yn yr achos busnes gwreiddiol dros sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru.

30. Crynhodd y Prif Weithredwr drafodaeth y Bwrdd trwy nodi bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi perfformio'n dda mewn amgylchedd anodd ond ei fod yn parhau i ganolbwyntio ar yr her o symud ymlaen, gan gynnal perfformiad lefel uchel ar draws y sefydliad wedi'i gydbwyso â newid a gwaith adolygu mewnol wrth i'r gwaith ar yr Adolygiadau o Feysydd Busnes fynd rhagddo.

## Adroddiad Monitro Blynyddol ynghylch y Gymraeg 2015/16 (NRW B 27.16)

31. Cyflwynwyd Lyn Williams, Ymgynghorydd Polisi'r Gymraeg, i'r Bwrdd a darparodd grynodeb o brif bwyntiau'r Adroddiad Blynyddol. Cadarnhawyd bod cynnydd da wedi'i wneud o ran hyfforddiant iaith Gymraeg a bod 25% o staff Cyfoeth Naturiol Cymru yn siarad Cymraeg yn rhugl. Nodwyd y dylanwad cadarnhaol y mae'r 'hyrwyddwyr' wedi'i gael yn y sefydliad a chymeradwyodd Is-gadeirydd y Bwrdd, sy'n Hyrwyddwyr y Gymraeg ar gyfer y Bwrdd, y cynnydd a wneir.

32. Yna, cyflwynodd Ymgynghorydd Polisi'r Gymraeg ymateb arfaethedig Cyfoeth Naturiol Cymru i'r safonau sydd wedi'u cynnig ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r safonau arfaethedig yn cyd-fynd â Chynllun Iaith Gymraeg cyfredol Cyfoeth Naturiol Cymru, ac eithrio Safon 36 a fyddai'n mynnu bod cyfran uwch o lawer o ddogfennau technegol yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog o gymharu â'r hyn sy'n cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog ar hyn o bryd. Roedd y Bwrdd yn cefnogi'r angen i herio'r cynnig hwn ar sail y ffaith bod y galw'n isel a'r gost yn uchel oherwydd bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynhyrchu llawer o ddeunydd technegol bob blwyddyn. Eglurodd y Prif Weithredwr y byddai'r adroddiadau technegol perthnasol yn cael eu cyfieithu pe bai tystiolaeth i ddangos bod galw am hynny.

33. Ar ran y Bwrdd diolchodd y Cadeirydd i Ymgynghorydd Polisi'r Gymraeg am y cyflwyniad clir a'r gwaith parhaus a wneir i helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni ei uchelgeisiau o ran y Gymraeg. Cymeradwyodd y Bwrdd yr Adroddiad Blynyddol a'r ymateb arfaethedig i Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch y safonau drafft ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Datblygiad y Cynllun Corfforaethol 2017-22 (NRW B 28.16)

34. Cafodd Howard Davies, Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, a Sue Ginley, Rheolwr Perfformiad Cynllunio, eu croesawu i'r cyfarfod. Cafodd allbynnau gweithdy'r Bwrdd i ystyried amcanion llesiant posibl eu cyflwyno i'r Bwrdd, yn ogystal â'r cynlluniau manwl ar gyfer gwaith ymgysylltu mewnol ac allanol er mwyn datblygu Cynllun Corfforaethol 2017-22.

35. Croesawodd y Bwrdd yr allbynnau drafft o'r gweithdy ym mis Ebrill, a oedd wedi dechrau archwilio amcanion llesiant posibl. Mae maint y materion y mae angen i Cyfoeth Naturiol Cymru wneud cyfraniad o bwys iddynt yn amlwg yn yr amcanion a gynigir.

36. Cafodd y cynlluniau ymgysylltu eu nodi a phwysleisiodd y Bwrdd y bydd gweithio'n gydweithredol a gwaith ymgysylltu ystyrlon yn allweddol o safbwynt cyflawni ein

cyfrifoldebau newydd a mabwysiadu dulliau newydd o weithio. Mae'r gwaith ymgysylltu a fydd yn digwydd unwaith yn unig yn llai pwysig na'r gwaith ymgysylltu a fydd yn digwydd yn barhaus, wrth i gynlluniau gael eu gweithredu a'u diweddaru. Croesawodd aelodau'r Bwrdd yr awgrym y dylent gael eu cynnwys yn rhai o'r sesiynau mewnol ac allanol.

37. Crynhodd y Cadeirydd y drafodaeth trwy dynnu sylw at y terfyn amser uchelgeisiol, sef mis Mawrth 2017, gan ofyn a oedd yn realistig o gofio pryd y byddai'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol ar gael, a'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol a Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn dilyn yr etholiad. Dylai'r pwyslais fod ar gynllunio corfforaethol sy'n gweithredu'r egwyddorion yn llawn ac sy'n ystyried yr holl ofynion perthnasol, yn hytrach na darparu cynllun erbyn terfyn amser. Cytunodd y Bwrdd y byddai angen iddo ailystyried y mater hwn yn ystod y misoedd nesaf.

## Ail Gylch o Gynlluniau Rheoli Basn Afon: Blaenoriaethau ar gyfer Bodloni Gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (NRW B 29.16) a'r Strategaeth Mwyngloddiau Metel (NRW B 30.16)

38. Rhoddodd Ruth Jenkins, Pennaeth Cynllunio Adnoddau Naturiol, a Bob Vaughan, Rheolwr Cynllunio Amgylcheddol Strategol, gyflwyniad ar y cyd i'r Bwrdd gan roi diweddariad cyffredinol ynghylch y gwaith o weithredu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yng Nghymru a'r heriau penodol a achosir i ansawdd dŵr gan waddol mwyngloddiau metel ledled y wlad. Dangosodd y cyflwyniad bwysigrwydd sicrhau bod adfer mwyngloddiau metel yn flaenoriaeth allweddol er mwyn gwneud cynnydd pellach yng nghyswllt targedau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, ac mai atebion integredig o ran rheoli adnoddau naturiol fydd fwyaf effeithiol o gofio nodweddion ehangach llawer o'r safleoedd o ran bioamrywiaeth a diwylliant.

39. Roedd y Bwrdd yn cydnabod bod y problemau sy'n deillio o fwyngloddiau metel yn broblem fyd-eang a bod Cymru, ar sail y profiad a gafwyd hyd yma, mewn sefyllfa dda i arwain yn y maes hwn ar lefel ryngwladol. Cafodd yr heriau sy'n ymwneud ag ariannu'r gwaith adfer eu harchwilio, a chytunodd y Bwrdd fod cyllid craidd yn gallu bod yn ysgogiad da o safbwynt denu cyllid o ffynonellau eraill ac y gellid archwilio atebion arloesol megis defnyddio ffïoedd trwyddedau echdynnu.

40. Crynhodd y Cadeirydd y drafodaeth trwy annog y tîm gweithredol i fod yn uchelgeisiol wrth ystyried sut y gellid gwneud cynnydd pellach yng nghyswllt y broblem allweddol hon i ansawdd dŵr yng Nghymru.

## Diweddariad am y Polisi ynghylch y Newid yn yr Hinsawdd a'r Prosiect Carbon Bositif (NRW B 31.16) a Mawndiroedd i'r Dyfodol (NRW B 32.16)

41. Cafodd Peter Jones, Ecolegydd Mawndiroedd, Anna Jones, Ymgynghorydd Rheoli Carbon a Pherygl i'r Hinsawdd, a Jennifer Kelly, Rheolwr y Prosiect Carbon Bositif, eu cyflwyno i'r Bwrdd. Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf ganddynt am y Prosiect Carbon Bositif a Mawndiroedd i'r Dyfodol.

42. Nododd tîm y Prosiect Carbon Bositif yr heriau a'r cyfleoedd sydd i Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn sefydliad sy'n esiampl i eraill yn y maes hwn. Nododd y Bwrdd y cynnydd a wnaed a thrafododd y rôl y gall caffael ei chwarae o safbwynt helpu i ysgogi arfer gorau o ran lleihau allyriadau ac ati. Dywedodd aelodau'r tîm y byddent yn cwrdd â Llywodraeth Cymru yn nes ymlaen yn y mis a bod cysylltiadau â chaffael yn rhan o'r agenda. Yn ogystal, nododd y Bwrdd y cyfleoedd sy'n codi i'r prosiect o Strategaeth Adeiladau Cyfoeth Naturiol Cymru.

43. Bu'r Bwrdd yn myfyrio ynghylch yr ymweliad â safle Cors Erddreiniog y noson gynt, yng nghyd-destun y papur ynghylch Mawndiroedd i'r Dyfodol. Nododd y Cadeirydd fod yr ymweliad wedi bod yn gyfle gwerthfawr i gwrdd â rhanddeiliaid perthnasol a gweld y gwaith a wneir ar y safle i fonitro a rheoli mawndir.

44. Nododd y Bwrdd fod cyfle i Cyfoeth Naturiol Cymru weithredu arfer gorau o ran adfer a rheoli mawndir ar yr 11,000 hectar o fawn, y mae ei gyflwr yn amrywio, ar ystâd Cyfoeth Naturiol Cymru. Caiff gwaith adfer ei flaenoriaethu ar sail dichonolrwydd ac ar sail y posibilrwydd y gellir sicrhau manteision lluosog, a thynnodd y Bwrdd sylw at y berthynas bosibl â'r Adolygiad Maes Busnes ar gyfer Rheoli Tir, a ddylai gael ei harchwilio ymhellach.

45. I grynhoi, cytunodd y Bwrdd mai'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r problemau a'r heriau sy'n ymwneud ag adfer mawndiroedd yw trwy sefydlu partneriaethau da ac ymgysylltu'n dda â rhanddeiliaid, oherwydd bod gan y rheolwyr ddealltwriaeth dda o arfer gorau ym maes adfer.

## Diweddariad ynghylch cynnydd o ran cyflawni argymhellion y Swyddfa Cyflawni Gwell Rheoleiddio (NRW 33.16)

46. Ymunodd Isobel Moore, Pennaeth Busnes, Rheoleiddio ac Economeg, â'r cyfarfod a chyflwynodd yr adroddiad i'r Bwrdd. Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cynnydd a wneir o safbwynt cyflawni'r argymhellion a nodwyd yn nogfen y Swyddfa Cyflawni Gwell Rheoleiddio, "A Review of Natural Resources Wales against the Principles of Good Regulation".

47. Nodwyd bod y tri phrif faes y mae angen canolbwyntio arnynt yn ystod y 12 mis nesaf fel a ganlyn: gwasanaethau digidol gwell trwy wefan Cyfoeth Naturiol Cymru; ymyriadau rheoleiddio cynharach er mwyn osgoi achosion o ddiffyg cydymffurfio; a chamau i ymgysylltu'n well yn gyffredinol â byd busnes.

48. Cynigiodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y dylai'r Pwyllgor barhau i oruchwylio'r gwaith o weithredu'r argymhellion i gyd cyn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd.

49. Crynhodd y Cadeirydd y drafodaeth trwy nodi bod y Bwrdd yn fodlon â'r cynnydd a wneir ac y dylai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg barhau i fonitro'r cynllun gweithredu manwl.

***CAM GWEITHREDU: Yr Ysgrifenyddiaeth i ddiweddaru rhagolwg y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.***

## Adroddiad y Cadeirydd (NRW B 34.16)

50. Roedd y Cadeirydd wedi darparu crynodeb ysgrifenedig a oedd yn nodi'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau a oedd wedi'u mynychu. Yn ogystal, caiff cyfarfodydd rheolaidd â'r Gweinidog a Llywodraeth Cymru eu mynychu.

## Adroddiad y Prif Weithredwr (NRW B 35.16)

51. Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at nifer o eitemau yn ei adroddiad ysgrifenedig, gan gynnwys y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Phrifysgolion Cymru a pherthnasedd y datblygiad i Cyfoeth Naturiol Cymru.

***CAM GWEITHREDU: Y Prif Weithredwr i gyfrannu eitem i gyfarfod mis Medi er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhwydwaith gyda Phrifysgolion Cymru.***

52. Roedd y Prif Weithredwr, y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd wedi treulio amser gyda staff Cyfoeth Naturiol Cymru yn y Gynhadledd Ymarferwyr Arfordirol yn Llandudno, a fu'n canolbwyntio ar nifer o brosiectau sy'n helpu i ddatrys problemau'n ymwneud â llifogydd arfordirol.

53. Tynnodd yr Is-gadeirydd sylw at yr adolygiad o'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, a arweinir gan Defra, y disgwylir iddo ddod i ben yn fuan. Mae safbwynt Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch gwerth y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn glir, ond ceir pwysau gwleidyddol ehangach dros newid, o nifer o gyfeiriadau yn y DU, ac mae'r trefniadau cyfredol yn wynebau heriau ariannol hefyd. Cynigiodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg gyfrannu'r ddealltwriaeth y mae wedi'i meithrin i'r

adolygiad, trwy ei rôl ar Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur.

***CAM GWEITHREDU: Is-gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i drafod yr adolygiad o'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur.***

## Adroddiad ynghylch Lles, Iechyd a Diogelwch (NRW B 35.16)

54. Cafodd yr Adroddiad ynghylch Lles, Iechyd a Diogelwch ei gyflwyno i'r Bwrdd gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl. Mae'r adroddiad yn cynnwys y ffigurau diwedd blwyddyn ar gyfer achosion o adrodd ynghylch damweiniau a digwyddiadau fu bron â digwydd, a nodwyd ei bod yn ymddangos bod y systemau mwy cynhwysfawr yn sefydlu diwylliant cadarnhaol o adrodd ynghylch damweiniau a digwyddiadau. Nodwyd mai 2.2% oedd canran y flwyddyn ar gyfer absenoldeb oherwydd salwch, o gymharu â chyfartaledd o 2.5% yn y sector cyhoeddus.

55. Cafodd y papur ynghylch Materion Lleol ei gyflwyno gan Gyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r Gogledd a'r Canolbarth, a chanolbwyntiodd ar y gwaith o ddatblygu sawl cynllun ynni adnewyddadwy yn y gogledd.

## Unrhyw fater arall gan y Bwrdd

56. Nodwyd y byddai cyfarfod cyhoeddus nesaf y Bwrdd yn cael ei gynnal yn Aberystwyth ar 7 Gorffennaf.

57. Croesawodd yr Is-gadeirydd y templed newydd ar gyfer papurau'r Bwrdd a gofynnodd a fyddai modd ystyried ei ddatblygu ymhellach er mwyn tynnu sylw at gyfraniad at nodau llesiant.

***CAM GWEITHREDU: Y Cyfarwyddwr Llywodraethu i ystyried yr awgrym ac adrodd yn ôl i'r Bwrdd.***

58. Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben drwy ddiolch i'r Tîm Gweithredol, yr Ysgrifenyddiaeth a'r bobl eraill a oedd wedi cynorthwyo gyda'r trefniadau ar gyfer cyfarfod y Bwrdd.

59. Ar ôl dod â chyfarfod ffurfiol y Bwrdd i ben, gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau a chwestiynau gan aelodau'r cyhoedd a oedd yn bresennol. Cadarnhaodd nifer o'r sawl a oedd yn bresennol fod cael cyfle i fynychu'r cyfarfod wedi bod yn ddefnyddiol iawn, a gofynnwyd sawl cwestiwn penodol. Mae'r cwestiynau ynghyd â'r atebion i'w gweld yn Atodiad 1.

## Atodiad 1

## Cwestiynau aelodau'r cyhoedd

1. **Unigolyn a oedd yn bresennol -**

*O'r diweddariad ynghylch Perfformiad Corfforaethol, yr hyn a'm tarodd i oedd mor anodd oedd hi i gael gwybodaeth ddealladwy ar draws Cymru sydd o fudd i bobl ac amgylchedd Cymru. Enghraifft arall o hynny oedd prosiect y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar. Os oes prosiectau tebyg yn digwydd mewn sefydliadau, onid oes modd rhannu gwybodaeth? Byddai hynny'n galluogi sefydliadau i rannu arfer da, creu dulliau o weithio ar y cyd a galluogi pawb i ddysgu gwersi.*

**Y Cadeirydd -**
Byddwn yn sôn am y mater hwn yn y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a fydd yn ystyried dulliau o gyflawni'r nodau llesiant. Byddwn ninnau'n gweithredu yng nghyswllt y mater hwn hefyd ac yn ei drafod â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Sophie Howe, er mwyn cydweithio i leihau achosion o ddyblygu gwaith.

2. **Unigolyn a oedd yn bresennol -**

*Yn ail, hoffwn longyfarch Cyfoeth Naturiol Cymru ar y papur ynghylch y Gymraeg ac ar y gwaith y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud i hybu'r Gymraeg. Mae'n braf gweld ymrwymiad y staff ac aelodau'r Bwrdd i ddysgu Cymraeg. O ran y bwriad i herio'r adran sy'n ymwneud â Safon 36, hoffwn bwyso arnoch i ailystyried. Rydym yn addysgu pobl ifanc ym maes pynciau technegol, ac rwy'n credu ei bod yn bwysig bod y dogfennau hyn yn cael eu cyfieithu. Tybed a allech ddod o hyd i ateb mwy creadigol yn hytrach na gwrthod y Safon?*

**Y Prif Weithredwr -**
Diolch am y cwestiwn. Rwy'n cefnogi eich awgrym a hoffwn drafod y mater ymhellach â'n Hymgynghorydd Polisi'r Gymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg.

3. **Martin Bishop, Y Cydffederasiwn Diwydiannau Coedwigoedd**

*Yng ngoleuni'r trafodaethau niferus am flaenoriaethau, a wnewch chi adolygu eich rhwymedigaethau a'r modd yr ydych yn eu cyflawni, yn enwedig o safbwynt ailstocio? A fydd y gyllideb honno'n cael ei neilltuo?*

**Y Cadeirydd -**
Diolch am eich cwestiwn. Fe wnawn ni fynd ag ef gyda ni a'i ystyried.

**Y Prif Weithredwr -**
Mae angen cydbwysedd rhwng cwympo coed ac ailstocio, ac ar hyn o bryd rwy'n cytuno ein bod ni ar ei hôl hi o safbwynt ailstocio, yn bennaf oherwydd yr amgylchiadau eithriadol sydd wedi codi o ganlyniad i glefyd y llarwydd yng Nghymru.

4. **Martin Bishop, Y Cydffederasiwn Diwydiannau Coedwigoedd -**

*Ar ran y sector coedwigoedd, hoffwn gynnig cyfle i chi ddefnyddio adeilad i gynnal cyfarfod o'r Bwrdd.*

**Y Cadeirydd -**
Diolch am y cynnig ond rydym yn ceisio defnyddio ein swyddfeydd ni ein hunain ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd, neu leoliad cyhoeddus addas.

5. **Unigolyn a oedd yn bresennol -**

*Mae cyflawni prosiect geogelcio ar gyfer 300 o bobl ifanc a 30 o hyfforddwyr wedi'i gynnwys yng Nghynllun Corfforaethol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar gyfer 2016-2017. Pa gamau, os o gwbl, y mae'r Bwrdd hwn wedi'u cymryd i ategu'r amcan hwn gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, trwy hybu geogelcio ar dir y mae Llywodraeth Cymru yn berchen arno neu'n ei gymryd ar brydles, a allai greu mwy o ddiddordeb mewn geogelcio, gan gynnwys ar dir wrth ymyl Canolfan Ymwelwyr Cyfoeth Naturiol Cymru yng Ngarwnant lle mae cais cynllunio wedi'i gyflwyno gan Forest Holidays am 40 o gabanau pren?*

**Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r De**
Rydym yn cefnogi geogelcio fel gweithgaredd ar dir Cyfoeth Naturiol Cymru ac nid ydym yn disgwyl i bobl ddweud wrthym pan fyddant yn geogelcio ar ein tir. Fodd bynnag, rydym yn gofyn i holl aelodau'r cyhoedd barchu'r bywyd gwyllt a'r cynefin naturiol.

**Y Cadeirydd -**
Byddwn yn darparu ymateb ysgrifenedig llawnach hefyd.

**Ymateb ysgrifenedig -**
**Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i gwestiwn i'r Bwrdd ynghylch geogelcio yn ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**
Mae Cyfoeth Naturiol Cymru o blaid geogelcio ac mae'n annog geogelcwyr i ymddwyn yn gyfrifol ac yn ddiogel wrth ymgymryd â'u gweithgaredd ar dir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae gennym brif gytundeb trosfwaol â'r corff ymbarél ar gyfer geogelcio yn y DU (Cymdeithas Geogelcio Prydain) sy'n nodi meini prawf a chanllawiau ar gyfer geogelcwyr.

Nid ydym yn disgwyl i bobl sy'n gosod celciau neu sy'n dilyn llwybr geogelcio sôn wrthym am eu gweithgaredd, oni bai ei fod yn ddigwyddiad ffurfiol neu'n ddigwyddiad a drefnir ar gyfer grŵp – os felly, rydym yn disgwyl iddynt ddefnyddio ein fframwaith Mynediad yn yr un modd â threfnwyr digwyddiadau eraill.

Gofynnwn i'r sawl sy'n gosod geogelciau ar dir a reolir gennym wneud hynny gan ddangos sensitifrwydd a chan ddeall y gallai'r geogelciau gael eu symud yn ystod gwaith cynaeafu neu weithrediadau eraill at ddiben rheoli'r tir. Gofynnwn i bobl ddarllen pob arwydd ynghylch diogelwch a gweithredu'n unol â'r arwyddion hynny. Yn ogystal gofynnwn i bobl beidio â gosod geogelciau ar safleoedd sensitif, a chysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru os ydynt yn ansicr ynghylch statws safle.

Ar sawl safle a reolir gennym, rydym wedi gosod llwybrau geogelcio penodol a thaflenni perthnasol. Mae'r rhain ar gyfer geogelcwyr amhrofiadol, neu geogelcwyr â phlant bach sydd am gael sesiwn flasu – oherwydd mae natur geogelcio'n golygu nad yw llwybr safonol yn bosibl ar ei gyfer.

Felly, rydym yn cefnogi amcanion geogelcio Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac eraill, ac o chwilio ar y we am geogelciau yng Nghymru fe welwch fod cannoedd yn llythrennol o geogelciau ar hyd y tir a reolir gennym ni, gan gynnwys safleoedd yng Nghanolfan Garwnant a'r cyffiniau. Fodd bynnag, **nid yw - ac ni fydd - Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflawni cyfrifoldebau rheoli** yng nghyswllt y gweithgareddau a'r llwybrau (gan gynnwys gwaith archwilio a chynnal a chadw) nac yn hyrwyddo'r gweithgareddau, ond cânt eu defnyddio'n rheolaidd a'u hyrwyddo gan unigolion a chyrff megis Cymdeithas Geogelcio Prydain.

6. **Kate Gibbs, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru -**

*Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ofyn i chi ailystyried y penderfyniad i roi'r gorau i ariannu cylchgrawn Natur Cymru. Mae'r sawl sy'n tanysgrifio iddo'n cefnogi Cyfoeth Naturiol Cymru a byddai'n drueni mawr pe bai'r penderfyniad i roi'r gorau i'w ariannu'n cael ei gadarnhau.*

**Y Cyfarwyddwr Cysylltiadau Allanol a Chyfathrebu -**
Byddwch wedi clywed yn ystod cyfarfod y Bwrdd heddiw ein bod wedi gorfod gwneud rhai penderfyniadau anodd ynghylch y modd y caiff arian ei ddyrannu. Nid yw'r penderfyniad hwn yn ymwneud ag ymrwymiad Cyfoeth Naturiol Cymru i fioamrywiaeth a chadwraeth natur, ac rydym wedi ymrwymo'n helaeth o hyd i gefnogi'r cylchgrawn trwy ddarparu cynnwys ac erthyglau ar ei gyfer.

**Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru -**
Rwy'n deall eich pryderon ac rwyf wedi nodi eich cwestiwn. Mae'r penderfyniad yn destun gwaith craffu ar hyn o bryd. Byddwn yn ystyried eich cwestiwn ond ni allaf warantu y byddwn yn ailystyried y penderfyniad.

7. **Unigolyn a oedd yn bresennol -**

*Sylw ar eich adroddiad blynyddol yw hwn. O safbwynt Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru, dylid mynd i'r afael o ddifrif â'r wybodaeth annigonol ynghylch incwm a chostau'n*

*ymwneud ag Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru. Dyma'r brif ffordd y gallwn asesu a yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn sicrhau gwerth am arian.*

**Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru -**
Fe wnawn ni fynd â'ch cwestiwn gyda ni ac ymateb iddo maes o law.

**Y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio -**
Cawsom gyfarfod â'r sector coedwigaeth yr wythnos hon ac rydym yn ceisio gwella ein dealltwriaeth o'r anghenion o ran gwybodaeth a fyddai'n ddefnyddiol, a bod mor dryloyw ag sy'n bosibl wrth grynhoi'r holl fuddiannau.